

Cyfansoddi Ewrop – Helaethu Ffiniau

Dafydd Elis-Thomas

**Darlith yr Eisteddfod Genedlaethol
Y Faenol, Caernarfon 2005**

ISBN 1 904773 04 4



Cyfansoddi Ewrop – Helaethu Ffiniau

Yr Awdur



Cafodd yr Arglwydd Dafydd Elis-Thomas, AC Meirionnydd Nant Conwy, ei ailethol yn Llywydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru pan agorwyd ail sesiwn y Cynulliad ym mis Mai 2003. Wedi bod yn AS Meirionnydd Nant Conwy 1974-92 ac yn Llywydd Plaid Cymru 1984-91, cafodd ei beriodi yn arglwydd am oes, yr Arglwydd Elis-Thomas o Nant Conwy, ym 1992. Bu'n Gadeirydd Bwrdd yr Iaith Gymraeg 1993-99 ac mae wedi bod yn aelod o Gyngor Celfyddydau Cymru, Cyngor Ffilm Cymru, Bwrdd Ffilm Cymru a Chyngor Ymgynghorol Cyffredinol y BBC. Mae wedi gwasanaethau fel Cadeirydd Sgrin Cymru, ac fel un o Gyfarwyddwyr Oriol Mostyn, y Gerddi Botaneg Cenedlaethol a gorsaf radio MFM Marcher. Mae hefyd wedi bod yn un o ymddiriedolwyr sefydliad y Big Issue a Theatr Bara Caws. Yn 2001 cafodd ei ethol yn Llywydd Prifysgol Cymru, Bangor. Fe'i ganwyd ym 1946 ac mae gan Dafydd Elis-Thomas radd PhD Prifysgol Cymru mewn hanes llenyddiaeth. Mae'n gyn-ddarlithydd, mae wedi cyflwyno rhaglenni teledu yng Nghymru ac wedi gweithio fel newyddiadurwr. Mae'n aelod gweithgar o'r Eglwys yng Nghymru.

Cyfansoddi Ewrop – Helaethu Ffiniau

Nid Y Cytuniad

Rwy'n gobeithio nad ydych chi wedi dod i ddarllen neu glywed y testun yma a'r drafodaeth a fydd yn dilyn, gobeithio, gan ddisgwyl esboniad manwl ar y Cytuniad sy'n sefydlu Cyfansoddiad i Ewrop, a'r bennod o anturiaethau ynddo. Mae'r agweddau hynny ar y Cytuniad sy'n denu'r lleiaf o sylw ond sy'n fwyaf diddorol at ddibenion ein trafodaeth ni i'w gweld yn Erthygl 1-8, "Symbolau'r Undeb". Mae'r faner, y deuddeg seren aur ar gefndir glas sy'n deillio o ddisgrifiad Marïaidd Llyfr y Datguddiad, yr anthem sydd wedi'i seilio ar y "Cathl i Lawenydd" yn Nawfed Symffoni Beethoven, yr arwyddair "Unedig mewn amrywiaeth", arian yr ewro a dydd Ewrop, ar y nawfed o fis Mai, i gyd wedi'u seilio yn y gyfraith ar yr ymadrodd "fe fydd". Mae symbolau'r Undeb wedi'u copïo'n bur agos o symbolau'r cenhedloedd. Mae baner, anthem, arwyddair, arian a gwyliau i gyd yn ddigon cyfarwydd yng nghyd-destun y genedl. Dyma wedd ddiwylliannol yr endid gwleidyddol. Ynteu fel arall y mae hi; ai'r strwythur gwleidyddol sy'n amlygu'r endid diwylliannol? Mwy diwylliannol na gwleidyddol yw byrdwn y ddisgwrs yma, a mwy creadigol na chyfansoddiadol. Serch hynny, mae yna amwysedd creadigol, fel bob amser, yn nheiti Cymraeg yr anerchiad yma. Mae'r gair Cymraeg 'cyfansoddi' yn gwneud y tro mewn celf ac mewn cerdd i olygu creu neu gynhyrchu gwaith llenyddol neu gerddorol newydd. Mae hefyd yn gallu golygu gosod geiriau mewn teip, fel a wneir wrth argraffu ac mewn ystyron mwy traddodiadol a sefydlu neu sylfaenu fel a wneir wrth baratoi cyfansoddiad. Mae'n rhaid imi'ch rhybuddio chi: mae pob un o'r ystyron yma i'w cael yn y darn yma.

Ac nid strided slogan yw ail linell y teitl chwaith. Ystyr 'helaethu' yw ehangu rhywbeth, ei chwyddo, ei ymestyn. Ond sut gallwn ni roi'r ferf yma o flaen 'ffiniau'. Gair sy'n deillio o'r Lladin finis yw 'ffin', sy'n golygu ei bod yn ffurf Ewropeaidd iawn. Terfyn, goror, yw ystyr ffin, rhyw ben draw ar bethau ond hefyd diwedd ac weithiau cyflawniad hefyd. O ran realiti daearyddol, dydy ffiniau ddim yn sefyll ar eu pen eu hunain. Maen nhw'n gorwedd rhwng pethau ac yn croesi pethau. Mae ffin yn nesaf at "cyffin" lle mae terfyn yn cael ei rannu ar y cyd, lle daw'r diriogaeth gyfagos yn gymdogaeth ac yn ardal, yn 'gyffiniau'.

A dyma ni eisoes wedi dechrau ateb y cwestiynau oedd yn fy nenu ar ddechrau'n trafodaeth drwy ddarllen a deall y diffyg sadrwydd a'r gwrth-ddweud sy'n perthyn i eiriau wrth eu gosod ochr-yn-ochr â'i gilydd. Mae ystyron yn croesi drosodd ac yn heintio'i gilydd y tu mewn a'r tu allan i bob testun. Rydyn ni'n ysgrifennu ac yn darllen pethau i mewn ac yn darllen pethau

Cyfansoddi Ewrop – Helaethu Ffiniau

allan ym mhob cyd-destun. Yn ein trafodaethau beunyddiol ‘call’ honedig, rydyn ni’n gweithio’n galed i gau’n llygaid a’n clustiau yn wyneb gwrth-ddweud ac amwysedd o’r fath. Ond dydy hynny ddim yn cael gwared arnyn nhw. Pe na baen ni’n ceisio’u hanwybyddu nhw, allen ni ddim ennill yr un o’n dadleuon. Ond ydyn ni’n ennill mewn gwirionedd os ydyn ni’n hepgor hanner y mater dan sylw er mwyn cau’r drafodaeth yn hytrach na’i hagog? Heblaw am ryw fath o wleidyddiaeth ddigon diniwed, ai ennill y ddadl yw’r peth pwysicaf? Ydy hi ddim yn fwy creadigol gofyn cwestiynau wrth iddyn nhw godi na rhoi atebion parod, a defnyddio’n hieithoedd i geisio deall materion a deall ble’r ydyn ni ac i ble’r ydyn ni’n mynd? Y math yna o ofyn cwestiynau yw dull traddodiadol athroniaeth Ewrop, un o gonglfeini’n diwylliant Ewropeaidd ni. Os ydy hyn i gyd yn swnio’n llawer rhy debyg i frand penodol o ddisgwrs athronyddol ôl-fodernaidd Ewropeaidd o’r ugeinfed ganrif, dwy’n ymddiheuro dim, ond yn cyfaddef yn hytrach fod y llwybr allan o Ddirfodaeth drwy Ôl-fodernaeth yn draddodiad Ewropeaidd yr wy’n fodlon iawn cael fy nghysylltu ag o.

Gair neu ddau arall am ein dau deitl ni cyn inni ysgrifennu a darllen rhagor. Nid ychwanegiad y naill at y llall yw’r ddwy ran yn ein teitl: ond mae’r naill yn sicr yn awgrymu’r llall. Tybed ai dim ond drwy helaethu ffiniau y gall Ewrop newydd gael ei chreu? Mae estyn ffiniau’n creu Ewrop newydd, fel sydd wedi digwydd drwy gydol ei hanes. Mae daearyddiaeth a hanes yn efeilliaid.

Ble Mae Ewrop?

Y cwestiwn cyntaf a mwyaf difrifol i ni yw “Ble mae Ewrop?” Os ydych chi’n gwybod yr ateb “cywir” yn barod, cewch anwybyddu’r frawddeg nesaf. Yr ateb yn syml ddigon yw ‘yma’. Fel y cwestiynau hynny sydd mor hawdd eu harholi mewn prawf syml, mae unrhyw ateb arall yn anghywir, a fydd o ddim yn cyfrif at y sgôr. Mae’n gwbl amlwg bod y newyddiadurwyr hynny sy’n ysgrifennu storïau fel “Aeth Prif Weinidog y Deyrnas Unedig i Ewrop heddiw i gyfarfod ag Arlywydd Ffrainc” yn anghywir a hynny am fod Ffrainc a’r Deyrnas Unedig ill dwy yn rhan o Ewrop, ac wastad wedi bod yn rhan ohoni ers i Ewrop gael ei chreu. Ac eto i gyd, pa mor aml ydyn ni’n darllen ac yn clywed brawddegau o’r fath, a hyd yn oed eu dweud nhw, rai ohonon ni. Yn y Deyrnas Unedig rydyn ni’n cael ein bwydo o hyd ar ddisgwrs yn y cyfryngau ac yn gyhoeddus sy’n disgrifio Ewrop fel rhywle arall. Yr awgrym yw nad oes gennyn ni, pwy bynnag ydyn ‘ni’, ddim rhan ynddi, nad ydyn ni’n rhan ohoni. Er eu bod nhw unwaith yn rhan o dir mawr Ewrop yn ddaearegol ac yn ffisegol, i bobl sy’n ysgrifennu ac yn meddwl fel hyn, dydy Ynysoedd Prydain ac Iwerddon, “gwlad y Llewod” gyda’i hanthem ei hun,

Cyfansoddi Ewrop – Helaethu Ffiniau

(eto!), yn sicr ddim felly erbyn hyn. Bob tro y defnyddiwn ni eiriau o'r fath rydyn ni'n gwrthod ein lleoli'n hunain yn rhan o dir mawr Ewrop, ei diwylliant a'i bywyd. I'r rhai sy'n dadlau bod ymadroddion o'r fath yn ddibwys, fe ddwedwn i mai yn ein mân siarad beunyddiol y gwelwch chi'n marcwyr diwylliannol yn parhau. Mae'r cyfan yn dibynnu ar ble mae'n mynegbyst diwylliannol yn pwyntio.

Mae'n eglur bod ffiniau, cyffiniau, terfynau a lleoedd yn ffisegol. Ond mae eu lleoliad ffisegol yn cael ei bennu gan ganfyddiad ac yn ei dro yn pennu canfyddiad hefyd. Y ffiniau a feddyliwn ni neu a welwn ni yn ein pennau yw'r ffiniau a welwn ni â'n llygaid. Mae gan bob un ohonon ni fap mewnlol, fersiwn mewnlol o ddaearyddiaeth wleidyddol yr ydyn ni'n benderfynol o ddal ato. Os yw'r ffiniau yn ein hymennydd ni, sut mae mynd ati i'w hehangu neu eu hymestyn?

Mae rhai anthropolegwyr wedi dadlau bod ffiniau o'r fath yn angenrheidiol, eu bod yn rhan o fath "naturiol" o ymddygiad dynol. Mae cyfatebiaeth anhygoel yn cael ei darlunio rhwng aelwyd a theulu, cymdogaeth, cymuned, tref a gwlad neu genedligrwydd ond anaml y bydd yn arwain yn iaith y Deyrnas Unedig at hunaniaeth "gyfandirol" gyflawn. Dydyn 'ni' ddim yn 'gyfandirol'. Rhywbeth i bobl y 'Cyfandir' yw hynny. Ac mae hyd yn oed bwnc mawr athroniaeth heb ddianc rhag y ffodd yma o feddwl. Mae gan nifer o gyfrolau sydd fel arall yn eithriadol o fuddiol deitlau sy'n cyfeirio at athroniaeth 'y Cyfandir', o'i chyferbynnu ag emperiaeth resymegol 'Brydeinig' neu 'Saesneg' neu 'Eingl-sacsonaidd'!

Beth Yw Ewrop?

A thrwy ddilyn emperiaeth resymegol o'r fath, y cwestiwn nesaf sy'n gorfod dilyn yw "Beth yw Ewrop?" Os ydy hi yma, ac os oes modd dadlau ein bod ni hwyrach yn rhan ohoni, yna oni ddylen ni allu ei nabod hi ac uniaethu â hi? Ac mae 'hunaniaeth' wrth gwrs yn gyfnither neu hyd yn oed yn efeilles i'r rhan arall o'r pâr 'gwahaniaeth'. Dydyr rhain byth yn efeiliaid unwy! Mewn iaith, ac felly wrth feddwl, rydyn ni bob amser yn adnabod pethau drwy wahaniaethau, drwy gymharu a chyferbynnu, drwy uniaethu o blaid pethau ac yn erbyn pethau. Mae bron bob amser yn haws diffinio'r hyn nad yw ffenomen ddiwylliannol yn hytrach na beth ydy hi. Ac fel y gwelson ni'n glir yn achos 'Ewrop' fel 'yma' ac nid 'acw', mae'n dealltwriaeth ni bob amser yn dibynnu ar ganfyddiad, safbwynt, lleoliad a phrofiad. Yr unig brofiad sydd gennyn ni hyd yn hyn o gymdeithas wleidyddol yw'r genedl-wladwriaeth, neu yn hytrach y wladwriaeth-genedl, Ewropeaidd, sef endid nad yw, yn ôl bron pob sylwebydd, bron byth yn genedl nac yn wladwriaeth. Mae'n barn ni am

Cyfansoddi Ewrop – Helaethu Ffiniau

unedau gwleidyddol yn cael ei llywodraethu gan y syniad bod rhaid iddyn nhw gydymffurfio â ffurf y wladwriaeth-genedl. I'r rhai sy'n trafod beth yw Ewrop, mae'r drafodaeth bron bob tro yn digwydd o fewn fframwaith y wladwriaeth-genedl. Dydy baneri, anthemau, arwyddeiriau, arian a gwyliau ddim yn help!

Felly, naill ai mae 'Ewrop' yn troi'n 'archwladwriaeth' yn y ddadl wrth-ffederalaidd ynteu mae'n 'gorfod parhau' yn Ewrop o 'genedl-wladwriaethau'. I'r rhai sy'n byw ym mocs y wladwriaeth-genedl, mae'n amhosibl dychmygu y gallai fod wedi bod yn rhywbeth pur wahanol, ei bod yn rhywbeth pur wahanol ac y gallai droi yn rhywbeth pur wahanol. Mae'r hyn sy'n gymwys i'r canfyddiad o Ewrop fel 'yma' neu 'acw' yn llawer mwy cymwys i'r safbwynt yma. Mae'n amhosibl i'r rhai sy'n meddwl fel hyn, sy'n gweld y byd yn fyd o genedl-wladwriaethau, feddwl amdano na'i weld mewn unrhyw ffordd arall. Maen nhw'n credu mai cenedligrwydd, y genedl-wladwriaeth a chenedlaetholdeb – agored neu gudd – yw cyflwr naturiol y ddynoliaeth. Os gofynnwn ni'r cwestiwn nesaf, hwyrach y gallwn ni symud y tu hwnt i'r aporia neu'r lôn bengaead athronyddol ymddangosiadol yma, a dringo allan o focs y cenedlaetholwr.

Pryd Bu Ewrop?

Ar ddechrau'r ddeunawfed ganrif y cafodd y term 'Ewropeaidd' ei ddefnyddio am y tro cyntaf yn y Gymraeg a'r ieithoedd Ewropeaidd eraill. Fel sy'n wir am bob term diwylliannol, ar ôl iddo gael ei fathu mae'n bwrw ei gysgod yn ôl ac ymlaen o'r pwynt lle daeth i mewn i'r iaith. Mae gofyn cwestiwn Ewrop yn debyg iawn i'r un cwestiwn a ofynnwyd am ran o Ewrop gan Gwyn Alf Williams, "When was Wales?". Byddai un ateb i weithio arno yr un fath â'i ateb yntau, sef rhyw fersiwn o "ddim eto". Gallai ymgais i esbonio'r 'pryd' ein harwain ni hefyd at y 'sut', ac mewn ffordd fe allai hynny helpu i ateb y 'beth' yn y cwestiwn cynharach. I gyrraedd y fan honno mae angen rhoi awch ar ein syniadau am feysydd a grymoedd diwylliannol. Mewn meddwl diwylliannol, fel y mae'r Cymro mawr arall o Williams - Raymond - wedi'i ddangos inni mor aml yn ei waith o, y profiad sy'n pennu'r ddealltwriaeth. Gall hyn fod yr un mor wir am y gymdeithas neu am rannau ohoni ag am yr unigolyn neu'r gymuned. Mae byw mewn gwladwriaeth-genedloedd wedi bod yn brofiad dominyddol ac mae'n dal yn ideoleg ddominyddol yn union am fod datblygiad gwleidyddol a chyfansoddiadol Ewrop ei hun yn deillio o dwf y 'genedl', y genedl-wladwriaeth neu, fel rydw innau wedi dadlau, y wladwriaeth-genedl. Ac nid dadl gylchol yn unig mo hon: mae'n pwyntio at brofiad diwylliannol hanesyddol sy'n fwy o orwel neu – os ca i fentro dweud – yn fwy o ffin i'n syniadau ni, yn hytrach nag yn aporia o reidrwydd.

Cyfansoddi Ewrop – Helaethu Ffiniau

Y wladwriaeth-genedl Ewropeaidd bellach yw creadigaeth amlycaf athroniaeth ac arferion gwleidyddol Ewrop, a chyn iddi gael ei hallforio mor drychinebus yng nghyfnod yr ymerodraethau i gyfandiroedd eraill, hi oedd yr injan oedd yn tanio twf Ewrop ei hun. Fe allech chi ddadlau bod llawer o'r helyntion treisgar wedyn yn Affrica a'r Dwyrain ('Agos', 'Canol' a 'Phell' i ddefnyddio'r iaith imperialaidd) yn deillio o orfodi'r cyfrwng Gorllewinol 'democrataidd' yma arnyn nhw. Ond, at ddibenion y drafodaeth yma mae'n ddiogel dweud mai fel 'Ewrop o ghenhedloedd' y daeth Ewrop y bedwaredd ganrif ar bymtheg a'r ugeinfed ganrif i fod. Er hynny, fel sy'n digwydd gydag unrhyw ffenomen ddiwylliannol-wleidyddol sy'n dod i'r fei, allwch chi ddim gobeithio symud yn anochel ymlaen ac i fyny, sicrhau 'cynnydd' neu 'barhad', neu unrhyw fath arall o symud. Dim ond hanesyddiaeth ddiniwed iawn fydd yn cynhyrchu naratif di-dor a syniad bod yna ryw fath o ddatblygiad hanesyddol cydlynol ac angenrheidiol o 'lwythau' Ewropeaidd, drwy 'freniniaethau ffiwdalaidd' i 'genhedloedd', ac wedyn 'gwladwriaeth-genedloedd', ac yn y pen draw i 'hunaniaeth Ewropeaidd', sydd heb eto flodeuo'n llawn, er bod ei symbolau yn Erthygl 1-8 yn hwb iddi! Mae'n rhaid bod haneswyr Ffrengig mawr yr ugeinfed ganrif wedi'n dysgu ni nad yw byth yn bosibl sôn am broses barhaus o symud weithiau ymlaen weithiau yn ôl, ond yn anochel tuag ymlaen. Dydy cronoleg, a'r profiad o amser, yn unigol ac yn gymdeithasol, byth yr un fath â'i gilydd. Sut mae modd meddwl am barhad drwy'r oesoedd pan sylweddolwn ni oblygiadau diwylliannol y ffaith na chafodd y syniad o 'ganrif' ei ddyfeisio tan yr ail ganrif ar bymtheg o leiaf? Roedd cymdeithasau blaenorol yn byw mewn cyfnodau pur wahanol yn yr ystyr lythrennol.

Cyfanidir yn Ailymddangos

Erbyn hyn, gallai methu ag ateb y tri chwestiwn syml uchod yn uniongyrchol ein helpu drwy'n harwain i wrthod modelau syml o ddealltwriaeth ddiwylliannol a gwleidyddol. Gadewch inni wrando ar farn arall a allai arwain at ddeall llanw a thrai llawer dyfnach o newid hanesyddol. Mae llawer o haneswyr Canol Ewrop (yr hyn oedd yn arfer cael ei alw'n Ddwyrain Ewrop yn nyddiau'r Rhyfel Oer) wedi dadlau bod y Canol Ewrop a gafodd ei ffurfio yn yr Oesoedd Canol wedi ailymddangos ar ôl cwmp yr Undeb Sofietaidd ym 1989. I ddefnyddio trosiad arall sy'n ymwneud â dyfnder, mae hi fel petai ffurfiadau daearegol dyfnach yn eu datgelu eu hunain oddi tan haen arwynebol o ddaear. O weld pethau fel hyn, mae hanesion yr ardal sy'n cael ei galw'n Ewrop yn dod yn fwy o galedosgôp, yn hanes lliwgar o weddillion ac ail-eni, yn Ewrop o ymddangos ac ailymddangos. Wrth inni ddarllen gweddillion ein hanesion, hwyrach y gallwn ail-ddeall ein dryswch presennol yng nghyd-destun gorffennol byw, heb gael ein llethu gan unrhyw syniad o gontiniwvm.

Cyfansoddi Ewrop – Helaethu Ffiniau

Mae newydd-ddyfodiaid ar ffurf nifer fawr o 'fewnfudwyr anghyfreithlon' a 'mudwyr economaidd' a 'cheiswyr lloches' i'r lle rydyn ni'n ei alw'n Ewrop yn digwydd gyntaf ar ddechrau'r bumed ganrif yn y Cyfnod Cyffredin pan ddechreuodd ffiniau milwrol Ymerodraeth Rhufain ollwng. Gallwn gymryd hyn fel yr enghraifft gyntaf o "ymestyn ffiniau Ewrop". O dipyn i beth, o'r cyffro yma fe ddaeth y syniad o Gristionogaeth Orllewinol. Ond nid rhywbeth a ddeilliodd o'i ddatblygiad mewnol ei hun oedd hyn, ond yn hytrach rhywbeth sydd bob amser yn ei ddiffinio'i hun drwy ei gymharu ei hun â'r Dwyrain. Mae Cristionogaeth Orllewinol yn datblygu drwy ei diffinio'i hun yn erbyn Byzantium. A dyna ichi air sy'n esgor ar gyfres gyfan o ystyron i ni. Byzantium yw enw'r Groegiaid ar y ddinas a ddaeth wedyn i gael ei galw'n Gaergystennin, neu Istanbul erbyn hyn. Byzantium yw'r arwydd o Ymerodraeth Rhufain yn y Dwyrain, gyda'i harddull bensaernïol neilltuol iawn. Mae'n air sy'n cael ei ddefnyddio o hyd i ddisgrifio strwythur hynod o gymhleth, yn enwedig strwythur gwleidyddol. Mae'n atseinio hefyd o draddodiadau crefyddol ac artistig hynod yr Eglwys Uniongred a'i heiconau nodweddiadol, a hefyd y gagendor litwrgaidd a diwinyddol mawr mewn Cristnogaeth rhwng addoli Groeg ac addoli Lladin.

Yn Erbyn y Dwyrain

O'r seithfed ganrif yn y Cyfnod Cyffredin, yn union fel ar droad yr ugeinfed ganrif, mae'r Gorllewin yn dioddef obsesiwn ynglŷn â'i wrthdaro ag Islam. Dechreuodd grymoedd milwrol 'brawychiaeth' Islamaidd ei chyfnod drwy ysgubo drosodd o Ogledd Affrica, sy'n daith ddigon byr, ac wedyn i fyny ac ar draws y Pyreneau. Mae presenoldeb Islam yn rhan annatod o ddatblygiad tir mawr Cyfandir Ewrop, ac yn enwedig penrhyn Iberia, a phe bai ei sylfeini yno wedi parhau a phe bai ei ddylanwad wedi ymestyn, fe allai Ewrop a Gogledd Affrica fod wedi cael eu hintegreiddio'n llawer mwy yn hanesyddol ac yn ddiwylliannol o amgylch y Môr Canoldir, fel yr "ymerodraethau" blaenorol Cyn y Cyfnod Cyffredin, megis ymgais tra-arglwyddiaeth y Groegiaid a'r Persiaid. Mae rhai haneswyr wedi dadlau'n effeithiol mai'r union oresgyniadau hyn arweiniodd at yr hyn y maen nhw wedi'i ddisgrifio fel yr ymgais mawr cyntaf i greu Ewrop newydd, sef ymgais Siarlymaen. Siarlymaen oedd brenin y Ffrancod (768-814) ac wedyn fel Siarl I bu'n Ymerawdwr Rhufeinig Sanctaidd am bedair blynedd ar ddeg olaf ei deyrnasiad. Cafodd yr 'Ewrop newydd' gyntaf yma, fel bron pob ymgais arall a'i dilynodd, ei seilio nid cymaint ar ymestyn ffiniau ag ar eu pennu'n gadarn a gorfodi unfurfedd. Cafodd ei sefydlu drwy goncro, yn eu tro, y Lombardiaid, y Sacsoniaid a'r Afaniaid nes bod yr ymerodraeth yn ymestyn o afon Ebro i afon Elbe. Mae hyn wedi'i ddisgrifio, gan ddefnyddio termau ideolegol cyfnod mwy diweddar, fel

Cyfansoddi Ewrop – Helaethu Ffiniau

gweledigaeth genedlaetholgar-imperialaidd, fel archwladwriaeth Ewropeaidd o ddominyddiaeth ddiwylliannol a gwleidyddol dros bobloedd eraill gan un bobl, un ddarpar ymerodraeth dros ymerodraethau eraill, sef ymgais a fyddai hefyd yn cael ei wneud o leiaf deirgwaith ar ddiwedd ail fileniwm y Cyfnod Cyffredin gan Siarl y Pumed, Napoleon a Hitler mewn ymdrech i greu Ewrop unedig mewn unfurffedd.

'Serch Cwrtais'

Ar droad mileniwm cyntaf y Cyfnod Cyffredin, gwelwyd ymestyn mawr arall ar ffiniau Ewrop pan gymerodd y rhai yr ydyn ni'n eu hadnabod fel y bobloedd Slafaidd ran mewn 'Ewrop newydd' arall. O'r canrifoedd dilynol rydyn ni'n dal yn gallu darllen blodeuad aruthrol treftadaeth llenyddiaeth yr oesoedd canol, hynt a helynt serch cwrtais, blodeuad y chwedlau Arthuraidd a 'mater Prydain', y pererindodau mawr, cofebau pensaernïol enfawr fel y gofod a'r llinellau yn abatai'r Sistersiaid, a'u buddiolwyr, y breniniaethau ffiwdalaidd mawr, y mae'n rhaid inni gydnabod mai Lloegr ar ôl y goncwest Normanaidd oedd y fwyaf ohonyn nhw i gyd.

Yn y fan yma fe hoffwn fentro rhoi ychydig o hanes diwylliannol personol. Mewn hanesyddiaeth ddiwylliannol fel hyn rwy'n credu ei bod yn bwysig peidio â glosio dros safbwynt yr awdur ei hun. Mae'r safbwynt hwnnw hefyd wedi'i seilio ar brofiad wedi'i fyw. Mi "ddes i yn Ewropead" yn hytrach na bod yn hunaniaeth wleidyddol a diwylliannol Gymreig neu Brydeinig yn unig, drwy astudio llenyddiaeth, ac yn enwedig llenyddiaeth ganoloesol a'r ysgolheictod llenyddol sy'n perthyn iddi ac a gynhyrchodd weithiau dehongli mor feistrolgar yn yr ugeinfed ganrif. Rwy'n cofio'r bore pan oeddwn i'n eistedd yn llyfrgell Prifysgol Bangor yn darllen ei chopi o European Literature and the Latin Middle Ages, gan Ernst Robert Curtius. Yn sydyn roeddwn i'n fwy na siaradwr dwyieithog iaith fwyafrifol yn deillio o'r Eingl-sacsoneg ac iaith leiafrifol yn deillio o'r Gelteg mewn dinas brifysgol daleithiol yng Ngogledd Cymru. Roedd y pethau yr oeddwn i'n dysgu eu gwerthfawrogi yn y diwylliannau a'r hanesion o'm cwmpas yn rhan annatod o gyfanwaith llawer mwy, cyfanwaith yr oedd ei fywiogrwydd yn deillio o'r ffordd yr oedd 'topoi' (neu motiffau) wedi'u gwasgaru ar hyd a lled llawer iaith, ac eto i gyd yn ymddangos yma ac acw yn gyfriniol o gyffredin: unwaith eto, "unedig mewn amrywiaeth".

Roedd un o 'hanfodion' yr Ewropeaidd-dra yma wedi'i grisialu yng ngwaith beirdd telynegol Profens a Gogledd yr Eidal yn yr unfed ganrif ar ddeg i'r drydedd ganrif ar ddeg gyda'u mesurau cymhleth a oedd yn cynnwys cymysgedd yr un mor

Cyfansoddi Ewrop – Helaethu Ffiniau

gymhleth o rym gwleidyddol ffiwdalaidd a gobeithion serch aflwyddiannus mewn serch cwrtais. Yn sydyn mi ddechreues i ddarllen cerddi Dafydd ap Gwilym a cherddi serch, molawdau a marwnadau Cymraeg diwedd y cyfnod canoloesol mewn ffordd gwbl newydd. Wedyn daeth problemau methodolegol a thestunol 'darllen' barddoniaeth o'r fath yn destun i'm traethawd ymchwil hwyr iawn yr oedd ei ddiweddglg yn ymgais i ddiffinio genre newydd, y 'farwnad serch', sydd yn fy marn i yn dal yn gyfnither bell ond bendant i delynegion y trwbadwriaid ac yn aelod o'r teulu Ewropeaidd o farddoniaeth ddiweddar serch cwrtais.

Ynglyn â Lloegr (a Chymru)

Yn gynharach yn yr adran ar serch cwrtais, mi haerai wrth fynd heibio mai Lloegr ar ddiwedd cyfnod y Normaniaid oedd y fwyaf o'r breniniaethau ffiwdalaidd heb amheuaeth. Mi lwyddes i wrthsefyll y demtasiwn i alw'r adran yma'n "Caru Lloegr".

Mae'r farn sydd wedi'i mynegi uchod ynglyn â chryfder Lloegr ffiwdalaidd yn un sy'n cael ei rhannu gan y mwyafrif o haneswyr Ffrainc yr Oesoedd Canol. 'Concwest' Lloegr gan luoedd y Dug William o Normandi a arweiniodd at greu gwladwriaeth frenhinol mor gryf. Pan gafodd ei hallforio i Loegr, fe ddaeth y system weinyddol ar gyfer rheoli ystadau a ddatblygwyd gan y Ddugaeth yn sylfaen i'r frenhiniaeth ganolog newydd, gan ychwanegu at rym y brenin drwy reoli gwybodaeth a hynny drwy gyfrwng cyfrifon adnoddau aruthrol arolwg Domesday, a'i chynnal drwy gyfrwng system o asiantau brenhinol neu siryfion. Am fwy na hanner can mlynedd yn ystod 'ymerodraeth Angevin' y ddeuddegfed ganrif a'r drydedd ganrif ar ddeg, roedd brenhiniaeth Lloegr yn un o ran daearyddiaeth â rhan anferth o orllewin Ffrainc, Anjou, Poitou, Guyenne a Normandi. Mae'r Lloegr hon wedi'i disgrifio gan Jacques Le Goff, prif ysgolhaig Ffrengig y cyfnod yma, fel y frenhiniaeth "fodern" gyntaf yng Ngwledydd Cred. Heb hanes milwrol a dynastig "oni bai am" yn ystod y cyfnod sy'n cael ei alw'n Rhyfel Can Mlynedd yn y bedwaredd ganrif ar ddeg a'r bymthegfed, fe allai brenhiniaeth Seisnig a gwladwriaeth ar diriogaeth Saesneg ei haith fod wedi cael eu creu ar dir mawr Ewrop. Mewn hanes "petai a phetasai" o'r fath ar y cyfandir a'r ynisoedd oddi arno, fe fyddai Lloegr wedi bod yn wleidyddol, yn gyfansoddiadol ac yn hanesyddol yn rhan annatod o Ewrop.

Er bod brenhiniaeth Lloegr ar yr un pryd yn deyrnas brototeip ac yn deyrnas fwyaf grymus o ran ei goruchafiaeth, doedd gwladwriaethau brenhinol o'r fath ddim yn anghyffredin yn Ewrop ar ddiwedd y cyfnod Canoloesol. Gyda chymorth

Cyfansoddi Ewrop – Helaethu Ffiniau

ei hymlyniad at ei ffydd, unodd Gwlad Pwyl Gristnogol â Lithwania ac fel llinach Bwylaidd-Lithwanaidd aeth ati wedyn i gipio Prwsia, fel bod y wladwriaeth Bwylaidd yn y bymthegfed ganrif yn uno'r Môr Du â Môr y Baltig mewn llain Ewropeaidd sydd wedi'i hadfer ar ffurf arall yn ehangiad diweddaraf yr UE.

Er hynny, allwch chi ddim cyfod datblygiad y gwladwriaethau brenhinol ffiwdalaidd â thwrf 'gwladwriaeth-genedl'. Mae'r mwyafrif sy'n ysgrifennu am ddatblygiad "ymdeimlad cenedlaethol" yn cytuno mai yn y ddeunawfed ganrif y dechreuodd y syniad o 'genedl' fel y byddwn ni'n ei ddefnyddio erbyn hyn gario'r ystyr yma. Mae 'cenedl' yn ei ystyr Canoloesol hwyr ryw Beth yn debyg i 'pobl'. Mae 'Cymry' drwy bron y cyfan o'i hanes yn golygu pobl y wlad yn ogystal â'r genedl ei hun. Dyfais ddiweddar yw sillafu'r wlad fel 'Cymru' a'r trigolion fel 'Cymry' er mwyn gwahaniaethu. Ar ddiwedd y cyfnod Canoloesol, mae gwlad, pobl, teyrnas a hil i gyd yn cael eu cynnwys yn y gair cenedl. Ond yn Lloegr, yn ôl haneswyr Ffrainc, gellir gweld ymddangosiad ffenomen gymdeithasol a fyddai'n dod yn 'deimlad cenedlaethol' yn y drydedd ganrif ar ddeg neu hyd yn oed y ddeuddegfed, ac mae'n briodol bod hyn yn cael ei gysylltu â Historia Brenhinoedd Prydain yr awdur o Gymro neu Norman Llydewig, Sieffre o Fynwy.

Ac nid lôn ben gaead yw trafodaeth ar ehangu'r ffiniau rhwng Cymru a Lloegr mewn testun ar ehangu ffiniau Ewrop. Ymgais yw trafodaeth o'r fath i osod hanes yr ynys yng nghyd-destun y tir mawr, tasg sy'n ddigon o her i rywun a gafodd addysg draddodiadol ysgol ramadeg yng Nghymru a dysgu am hanes Ewrop a Phrydain ar wahân, gyda hanes Cymru'n ychwanegiad bach hwyr i'r amserlen. Mae trywydd y ddadl hanesyddiaethol fel a ganlyn. Os yw twf gwladwriaeth-genedl frenhinol Lloegr yn 'Brydain' drwy feddiannu tiroedd yn filwrol ac wedyn gorfodi 'Uniad' cyfreithiol ar Gymru, Iwerddon ac – yn nes ymlaen ac mewn modd gwahanol – yr Alban, yn ffenomen Ewropeaidd nodweddiadol, sut gallwch chi ddadlau wedyn fod cynnyrch hanes o'r fath – sef y Deyrnas Unedig – mor wahanol i brif dir a phrif ffrwd datblygiad Ewrop? Yn yr un modd, pam dylai diwedd hanesyddol Tywysogaeth Cymru a'i hamsugno i deyrnas Lloegr gael ei weld mewn ffordd wahanol i gipio unrhyw dywysogaeth ar y tir mawr i mewn i wladwriaeth-genedl sy'n dod i'r amlwg? Yng nghyd-destun ehangach Ewrop does dim dadl dros weld ffurf benodol dominyddiaeth y genedl Seisnig fwy dros eraill yn y wladwriaeth frenhinol a ddatblygodd yn Deyrnas Unedig fel rhyw ddigwyddiad hanesyddol unigryw. Digwyddodd yr hyn a ddigwyddodd i'r Gymru ganoloesol ledled Ewrop ganoloesol; mae'r Deyrnas Unedig, yn fewnol ac yn allanol, yn wladwriaeth o adeiladwaith Ewropeaidd nodweddiadol. Hyd yn oed pan oedd yr anturiaeth ymerodrol yn ei hanterth yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, er bod gan y

Cyfansoddi Ewrop – Helaethu Ffiniau

Deyrnas Unedig y mwyaf o'r ymerodraethau, roedd ffenomen dominyddiaeth ymerodrol fel cyfrwng ar gyfer lladrata economaidd yn cael ei hatgynhyrchu ar draws gwladwriaeth-genhedloedd Ewrop.

Ewrop o Grefyddau

Un agwedd ar ddiwylliant Ewrop sy'n fwy hollbresennol na'r agwedd frenhinol, ac sydd i raddau yn gysylltiedig â hi, yw'r ysbrydol, gymaint felly nes nad oedd gan grefydd enw ar wahân fel profiad diwylliannol. Roedd gwareiddiad Ewrop, yn faterol ac yn ddiwylliannol, wedi'i 'blannu' ynddi. Fel bob amser, roedd yna gysylltiadau annatod rhwng crefydd a gwleidyddiaeth o fewn Cristnogaeth, yng ngwahaniadau Catholigiaeth (Rufeinig), yn natblygiad diweddarach Protestaniaeth, ac yn y brwydro ag Uniongredded am gylchoedd dylanwad y soniwyd amdano uchod. Roedd presenoldeb parhaol Islam yn Ewrop yn golygu bod deialog rhwng y crefyddau eisoes yn ffynnu erbyn canol y ddeuddegfed ganrif pan drefnodd yr Hybarch Bedr, Abad Abaty diwygiol mawr Cluny gyfieithu'r Coran i Ladin. Er ei bod wedi'i hen anghofio, cafodd dyneiddiaeth y Groegiaid ei hailgyflwyno drwy ddylanwad diwylliannol yr Arabiaid, a daeth yn ddylanwadol yn nadeni'r ddeuddegfed ganrif.

O fewn diwinyddiaeth Gristnogol y cyfnod, roedd dyneiddiaeth ddiwylliannol ddwfn yn datblygu, "fides quaerens intellectum" (ffydd sy'n chwilio am ddeallusrwydd) Sant Anselm, yn arwain at dwf mawr mewn ysgolheictod hermeniwtteg, gair y Groegiaid am ddadansoddi testunol er mwyn deall yr ysgrythur, a ddaeth mewn athroniaeth ddiweddarach yn fodd i astudio a dehongli ymddygiad pobl a sefydliadau cymdeithasol, sef yr hyn y mae'r astudiaeth yma'n ceisio ei wneud. Mae'r gwerthoedd dyneiddiol yma yn cael eu dyfynnu a'u dathlu yn Rhaglith y Cytuniad "Drawing inspiration from the cultural, religious, and humanist inheritance of Europe, from which have developed the universal values of the inviolable and inalienable rights of the human person, freedom, democracy, equality and the rule of law,..."

Yn ystod y dadleuon ar y Cytuniad, ceisiodd rhai o ymdrechion llobio'r Democratiaid Cristnogol geisio mewnosod cyfeiriad at y ffydd Gristnogol fel yr unig neu'r prif ddylanwad wrth greu Ewrop. Llwyddwyd i wrthsefyll hynny, oherwydd byddai wedi mynd yn groes i syniad y dyneiddwyr o ddinasyddiaeth fel peth secwlar yn yr ystyr ei bod yn dynodi'r gwahaniad rhwng crefydd a gwladwriaeth. Byddai hefyd wedi bod yn gyfystyr â gwadu sut y tyfodd dyneiddiaeth Ewrop o'r cyfnod hwnnw yn gynnar yn y ddeuddegfed ganrif y

Cyfansoddi Ewrop – Helaethu Ffiniau

bydden ni heddiw yn ei adnabod fel cyfnod o ffyniant yn y cysylltiadau aml-ffydd pan oedd Cristnogion, Iddewon a Mwslimiaid yn cydweithredu ac yn cyfieithu, gan arwain at ddatblygu dyneiddiaeth a sgolastigiaeth. Dwy ddim am anwybyddu'r ffeithiau hanesyddol garw bod yr unfed ganrif ar ddeg, y ddeuddegfed a'r drydedd ar ddeg wedi gweld gwrth-semitiaeth ffyrnig a Chwyllys gwrth-blwralaidd, rhagflaenwyr yr Holocost a Ffasgaeth. Hefyd roedd yna gyfres o gyrchoedd milwrol a oedd wedyn yn cael eu galw'n 'Groesgadau' ym Mhalesteina yn erbyn pobloedd Fwslimaidd, sef rhagflaenwyr y frawychiaeth wladwriaeth a'r frawychiaeth wrth-wladwriaeth rydyn ni'n byw gyda nhw hyd yr union ddydd y mae'r testun yma'n cael ei ysgrifennu. Ond, mewn cyferbyniad â'r rhai sy'n haeru ein bod 'ni' ar ryw adeg yn ddiweddar 'wedi dod' yn amlddiwylliannol, mae'n rhaid i ni haeru ar sail ein darlleniad ni ar hanes ein bod 'ni' vastad wedi bod felly. Roedd Iddewon, Mwslimiaid a Phaganiaid, fel yr ysgrifennodd Nora Berend, bob amser "wrth glwyd gwledydd Cred" a'r tu mewn iddyn nhw hefyd fel arfer. Mae'r gororau Ewrasiaidd a threftadaeth Fwslimaidd Iberia yr un mor Ewropeaidd ag unrhyw ardaloedd 'Celtaidd'. Mae cwestiwn 'aelodaeth Twrci' yn Ewrop mor hen â chwymp Caergystennin ym 1453.

Tirluniau Athronyddol

Mae dadleuon hanesyddiaethol y testun yma'n cael eu defnyddio'n ddigwylydd i hybu trafodaeth athronyddol. Mae ail-ddarllen hanes Ewrop yn rhan angenrheidiol o ddeall ble rydyn ni ac fe allai'r ail-ddarllen ein harbed rhag ceisio gwneud hynny drwy gyfrwng unrhyw fodel llinol simplistig. Does dim modd deall digwyddidau heb eu dehongli, yn y gorffennol ynteu'r presennol, a'u profi fel unigolyn ynteu fel cymdeithas. Mae gwneud hanes hefyd yn gyfystyr â byw drwy "ffydd sy'n chwilio am ddeallusrwydd". I ble felly mae'r ymagwedd at hanes yn arwain y ddatl athronyddol?

Mae'n ymddangos ein bod yn gallu gwahaniaethu'n glir rhwng nodweddion topograffyddol 'tirwedd', a'r ddelwedd ohonyn nhw ar ffurf 'tirlun'. Ond o ran athroniaeth wleidyddol, mae'r duedd tuag at unfurffedd ac un llais sy'n nodwedd ar ystyried grym fel pe bai'n llenwi'n pennau. Nid yr un peuoedd yw'r economaidd, y diwylliannol, y cymdeithasol, y personol, yr ysbrydol. Mae'r peuoedd neu'r 'bannau' hyn mewn bywyd unigol a chymdeithasol yn gyd-ddibynnol ac yn dylanwadu'n drwm ar ei gilydd. I fynd ar ôl delwedd y 'bannau', maen nhw'n sefyll nesaf i'w gilydd ac weithiau'n bwrw cysgod dros ei gilydd, ac mae'n bosibl eu bod yn rhannu ambell haen ddaearogol berthnasol. Maen nhw'n cyd-berthyn mewn rhai ffyrdd ac eto'n wahanol

Cyfansoddi Ewrop – Helaethu Ffiniau

mewn ffyrdd eraill. Treuliodd Raymond Williams fywyd deallusol cyfan yn olrhain y dylanwadau hyn yn ôl ac ymlaen rhwng y diwylliannol a'r economaidd, y materol a'r dychmygus. Yn ei sgil o, does dim angen mwych inni chwilio am ryw enghraifft derfynol o benderfynu, ac felly rydyn ni bellach yn cael meddwl mewn ffordd sy'n ein galluogi i weld ein strwythurau cymdeithasol cyfan fel rhai nad ydyn nhw o reidrwydd yn derfynol.

Ers i'r wladwriaeth-genedl ddatblygu ffurf benodol yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg a'r ugeinfed, yr un peth y gallwn fod yn sicr ohono mewn perthynas â'r ffurf honno, fel unrhyw ran arall o gymdeithas ddynol o safbwynt hanes, yw y bydd yn newid. Wyddwn ni ddim eto sut y bydd yn newid, pam, pa bryd ac o dan ba bwysau, ond fel bodau sy'n meddwl ac yn rhesymegu, drwy ddadlau, cystadlu ac weithiau drwy gytuno rydyn ni'n gallu gwneud newidiadau o'r fath. Dim ond fel cyd-ewylllys grwpiau y gall newidiadau o'r fath gael eu mynegi a'u sicrhau, drwy broses ddemocrataidd. Mae proses ddemocrataidd yn ffordd o gyfreithloni newid o'r fath mewn ffordd sydd wedi'i seilio ar gonsensws.

Yr hyn sy'n glir o'n darllen ar hanesyddiaeth yw nad oes rheidrwydd i ffiniau'n peuoedd gydredeg, ac i 'gyffiniau' y cymdeithasol, yr ieithyddol, y diwylliannol, yr economaidd, y gwleidyddol a'r cyfansoddiadol gael eu llunio yn yr un lle ar ein mapiau, neu yn yr un ffordd. Amrywiaeth siapiau bryniau a mynyddoedd du y 'Bannau' sy'n sicrhau eu bod yn ddiddorol. Hwyrach ein bod yn dod i gredu'n wleidyddol yn ogystal ag yn ddiwylliannol bod amrywiaeth yn beth da ynddo'i hun, a bod yn "unedig mewn amrywiaeth" yn well nag undod drwy rym. Dydy meddwl yn ôl amrywiaeth ddim yn arwain at un casgliad. Un dros dro yw pob casgliad, oni bai ein bod yn benderfynol o roi'r gorau i drafod.

Gofod Newydd

Mae yna ofod Ewropeaidd. Yn fwy na dim ac am y tro cyntaf yn hanes Ewrop, yn hanes pobl hwyrach, mae'n ofod gwleidyddol sydd heb gael ei glirio gan rym milwrol. Yn wahanol i bob ymgais arall rydyn ni wedi cyfeirio ato yn yr adran "Yn erbyn y Dwyrain" i orfodi un bobl uwchlaw un arall a sefydlu undod drwy orchfygu a gormesu ac unffurfedd orfodedig, fe gafodd hwn ei sefydlu ac mae'n cael ei gynnal drwy gyfrwng cyfres o Gytuniadau heb orfodaeth. Mae ar yr un pryd yn hen iawn ac yn bur newydd. Mae swm y cydrannau yn amrywiol, yn helaeth ac yn ehangu. Mae rhai neu hwyrach y cyfan o'i ardaloedd yn rhanbarthau, math o lywodraeth a ddyfeisiwyd gan Ymerodraeth Rhufain. Mae pob rhanbarth yn ddiwylliannol yn ein diffiniad ehangaf a dyfnaf o'r gair yn y

Cyfansoddi Ewrop – Helaethu Ffiniau

cyfnod ar ôl (Raymond) Williams. Mae pob rhanbarth yn rhanbarth gwleidyddol yn yr ystyr eu bod yn cymryd rhan mewn proses wleidyddol er nad yn ymreolus gan fod pob rhanbarth yn ffinio â rhanbarth arall, a chan fod pob rhanbarth yn bodoli o fewn gwladwriaeth-genedl fwy neu rwydwaith ar raddfa Ewropeaidd.

Mae rhai yn genhedloedd gwleidyddol am fod ganddyn nhw gyfansoddiad cenedlaethol, sef sylfaen wreiddiol aelodaeth yr UE; a'r sylfaen sydd wedi'i chadarnhau gan y Cytuniadau, fel y maen nhw wedi'u cydgrynhoi gan y Cytuniad diweddaraf, yw'r Wladwriaeth Ewropeaidd. Mae'r Aelod-wladwriaethau'n genhedloedd; mae pob un felly yn genedl ddiwylliannol, ac mae pob un am ei bod yn genedl ddiwylliannol drwy ddiffiniad yn amlddiwylliannol ac yn rhyngddiwylliannol ac i raddau mwy neu lai helaeth yn aml-genedlaethol ac yn aml-ethnig o ran cenedligrwydd dinasyddion unigol a grwpiau. Mae'r ddeddfwriaeth ar hawliau dynol yn honni ei bod yn gwarantu hawliau dinasyddion yn unigol ac i raddau yn gyfunol (Erthygl 2 o'r Cytuniad).

Fydd proses newid economaidd a chymdeithasol byth yn stopio yng nghylch bywyd unigol pobl, nac yn y shifftiau cymdeithasol mwy: all y ddadl wleidyddol sy'n cael ei chreu wrth i rymoedd cymdeithasol rwbio yn erbyn ei gilydd ddim stopio. Ac allwn ni ddim rhoi'r gorau chwaith i'r dadleuon sy'n codi yn eu sgil, er y bydd rhai yn ceisio. Yn y ddadl wleidyddol honno, mae yna rai a fydd bob amser yn ceisio dadlau ar sail map symlach neu ar sail egwyddorion cyntaf.

I fod yn fwy penodol. Mewn termau Ewropeaidd, mae Cymru-Wales yn bodoli fel "rhanbarth ystadegol". Mae ar yr un pryd yn genedl ddiwylliannol ac amlddiwylliannol. Mae'n amheus a ddaeth hi byth yn genedl wleidyddol yn ystyr fodern y term, neu o leiaf nid tan ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg pan ddaeth i gael ei chydnabod yn fwy ac yn fwy yn neddfwriaeth a chyfansoddiad gwladwriaeth y Deyrnas Unedig, ond bob amser i raddau llai na'r Alban. Daeth yn genedl gyfansoddiadol o fewn y Deyrnas Unedig ym 1998 pan basiwyd Deddf Llywodraeth Cymru gan Senedd y DU. Yn yr etholiad cyffredinol i'r Cynulliad Cenedlaethol ym 1999 daeth yn genedl wleidyddol gyflawn a'r flwyddyn nesaf drwy ei datblygiad gwleidyddol pellach mae'n debyg y bydd ganddi gyfansoddiad newydd eto byth. Oherwydd pwerau deddfu'r cyfansoddiad, mae Cymru'n cymryd rhan yng Nghynhadledd Cynullidau Deddfwriaethol Ewrop a'r corff cyfatebol rhynglywodraethol Cynhadledd y Gweinidogion a Phwyllgor Rhanbarthau Ewrop. Mae'r cyrff hyn yn eu gwahanol ffyrdd i gyd yn ceisio gosod gweithgareddau rhyng-ranbarthol ar seiliau cyfansoddiadol mwy cadarn yn yr Ewrop newydd. Mae'r ymdrech yma'n cael ei gwrthsefyll i raddau mwy neu lai gan y gwladwriaeth-genedloedd sy'n aelodau,

Cyfansoddi Ewrop – Helaethu Ffiniau

er bod rhai o aelodau gwreiddiol yr UE megis Teyrnas Gwlad Belg, aelodau mwy diweddar fel Teyrnas Sbaen a'r Deyrnas Unedig, a gwledydd sydd newydd ymuno fel Gwlad Pwyl yn datganoli eu haelod-wladwriaethau yn fewnol. Mae hyn yn golygu bod gan ranbarthau a chenhedloedd eu cysylltiadau gwleidyddol, diwylliannol ac economaidd ochr-yn-ochr â chysylltiadau'r aelod-wladwriaethau, odanyh nhw neu uwch eu pennau nhw. Mae paw diwylliannau ac amrywiaeth diwylliannol yn arbennig wedi'u cryfhau gan y prosesau gwleidyddol newydd. Mae'r rhan fwyaf o'r llywodraethau ranbarthol a'r llywodraethau cenedlaethol llai yn gwario adnoddau sylweddol o'u cyllidebau drwy Weinyddiaethau Diwylliant a/neu Dwristiaeth (sydd ei hun yn fath symudol ond amgylcheddol gostus o hybu diwylliannol) fel bod amrywiaeth diwylliannol yn cael ei hybu fel rheidrwydd gwleidyddol. Mae hyn yn ategu'r ddadl ddamcaniaethol y gall cyfansoddiadau cenedlaethol a ranbarthol wneud cymaint i genhedlu newid diwylliannol â'r ffordd arall o gwmpas.

Dyw'r ffaith bod yr holl brosesau hyn mewn llawer o ffyrdd yn efelychu gweithgareddau diwylliannol a gwleidyddol gwladwriaeth-genhedloedd ddim yn gorfod ein harwain i'r casgliad bod ranbarthau'n ceisio arfer rhyw hawl i 'hunan-benderfynu' i ddod yn wladwriaeth-genedl eu hunain. Pe bai pob grŵp yn Ewrop sy'n honni ei fod yn ddiwylliannol, yn gymdeithasol, yn diriogaethol neu'n wleidyddol yn "genedl" yn llwyddo i fynd ar y trywydd yma fe fyddai Cynulliad Cyffredinol y Cenedloedd Unedig heb sôn am yr UE mewn llawer mwy o gors nag ydi o nawr. Rhaid i drefniadau cyfansoddiadol eraill o fath ffederal sy'n cynnwys mathau mwy cadarn o ddatganoli, gael eu gweld fel rhai sydd o leiaf yr un mor hanesyddol ddilys a phriodol â model y wladwriaeth-genedl yr oedd ei sofraniaeth filwrol, economaidd, amgylcheddol, wleidyddol bob amser ac ym mhob lle yn cael ei chyfaddawdu.

'Polis' Newydd

Os cafodd y gair 'region', fel y soniwyd uchod, ei ddyfeisio gan y Rhufeiniaid, y Groegiaid a ddyfeisiodd y gair 'polis', y ddinas Roegaidd, wedyn y ddinas-wladwriaeth, a roes inni'r gair 'politics'. Nhw ddyfeisiodd y gair Ewrop hefyd, heb sôn am y gair 'ffilosoffi'. Erbyn hyn mae ffurf y wladwriaeth-genedl ei hun yn cael ei datgymalu'n fwyfwy oddi uchod ac oddi isod, ac mae'r mwyafrif o'r rhai sy'n ysgrifennu am genedlaetholdeb yn mynd ati i ddadansoddi argyfwng model y 'genedl-wladwriaeth'. Hwyrach y bydd y dadansoddiad hanesyddiaethol uchod yn ein helpu i weld bod y grymoedd a wnaeth y wladwriaeth-genedl hefyd yn gallu ei dadwneud, ei

Cyfansoddi Ewrop – Helaethu Ffiniau

datgymalu, a'i hail-greu ar ffurfiau newydd. Gallai hyn gael ei alw'n polis newydd, yn fywyd a thrafodaeth wleidyddol a chyfansoddiadol sy'n cydnabod ar yr un pryd yr hyn sy'n fyd-eang, yn gyfandirol ac yn lleol. Gobeithio bod y ddealltwriaeth rydyn ni wedi'i datblygu yn yr ysgrif yma yn dangos na chafwyd ar unrhyw adeg yn ein hanesion cyffredin un ganolfan grym, a bod y rhai oedd yn chwilio amdani ar y gorau yn awdurdodus ac ar y gwaethaf yn dotalaraidd. Mae canolfannau grym gwahanol, meysydd cyd-benderfynu, rhannu pwerau a rhannu sofraniaeth i gyd yn arwyddion o gyfansoddiadau at y dyfodol sy'n cydnabod nad oes angen na modd dewis rhwng hunaniaeth a gwahaniaeth. Mae hunaniaethau a gwahaniaethau'n cyd-fodoli mewn amrywiaeth. Yn union fel mai diogelu adnoddau amgylcheddol yw'r alwad foesegol gyntaf, a bod hybu cydraddoldeb cymdeithasol yn orchymyn moesol, felly hefyd mae amrywiaeth diwylliannol yn rhinwedd foesol. Mae unrhyw beth arall yn gwadu cymhlethdod a chyd-dibyniaeth foesol a moesegol yr Ewrop newydd.

Mae'r dyfodol bob amser yn cael ei sefydlu yn y diriogaeth ansad honno, y gororau hynny, rhwng hunaniaeth a gwahaniaeth, rhwng o blaid ac yn erbyn. Mae'r gwahanol fathau o ddyfodol sy'n codi yma hefyd yn gallu dyblygu'r gorffennol. Mae ehangu ffiniau fel pe bai'n arwain at greu ffiniau eraill, newydd, yn fewnol ac yn allanol gan fod y ffiniau newydd yn arwain nid yn unig at wefr fel pe baech yn gweld golygfa newydd o fwllch ar y mynydd, ond hefyd at bryder y posibilrwydd o golli rheolaeth sydd yn aml yn cyd-fynd â newid. Mae dinasyddiaeth gyffredin rhwng dau ohonon ni yn gwneud y trydydd yn ymfudwr anghyfreithlon, yn geisydd lloches hyd yn oed. Wrth i gytundeb Schengen agor y ffiniau o'r dref fach honno yn Lwcsembwrg tuag allan, i lif dirwysr o nwyddau a thraffig, dyma Slofenia – yn ddealladwy ddigon – yn dathlu ei hannibyniaeth drwy godi deg ar hugain o warchodfeydd newydd ar y ffin rhyngddi hi a gweddill yr hen Iwgoslafia.

Os yw Cymru-Wales yn Ewrop, felly hefyd Lloegr, safle'r frenhiniaeth ffiwdalaidd fawr gyntaf yn Ewrop, y mae ei ffiniau gyda Chymru yn agored ers dros fil o flynyddoedd. Roeddwn i'n arfer cellwair gyda Raymond a Gwyn Alf Williams ei bod yn siŵr o fod yn rhan o genhadaeth y Cymry, o gofio'n lleoliad daearyddol, ein bod yn atgoffa'r genedl fwyaf ar yr ynysoedd hyn oddi ar arfordir gorllewin Ewrop, ein bod ni i gyd yn perthyn gyda thir mawr Ewrop. Ar ddechrau'r unfed ganrif ar hugain, fel cenedl wleidyddol mewn Ewrop ehangach o lawer o genedlaethau a rhanbarthau llai fel ni'n hunain, efallai y bydd gennyn ni'r archwaeth ddiwylliannol a gwleidyddol i wneud yr union beth.

Cyfansoddi Ewrop – Helaethu Ffiniau

Nodyn gan yr Awdur

Dwy ddim wedi llwytho testun sydd eisoes yn ddwys drwy gynnwys cyfeiriadau. Hoffwn ddiolch i'r IWA am y gwahoddiad, ac yn enwedig i John Osmond.

Rwy'n gobeithio i mi ysgrifennu hyn yn nhraddodiad gwaith Raymond Williams, y cyntaf i'w ddisgrifio i hun yn 'Ewropead Cymreig'

Rwyf wedi dotio at destun hyfryd Fernand Braudel, *L'Europe. L'espace, les temps, les hommes*, Paris 1987. Rhaid imi gyfeirio hefyd at y gyfres aml-iaith ar *The Making of Europe* o dan olygyddiaeth Jacques Le Goff. Mae ei gyfrol feistrolgar ei hun yn y gyfres honno, *The Birth of Europe*, Rhydychen 2005, yn cynnwys llyfryddiaeth thematig helaeth.

Ysgrifennais a chyflwynais gyfres deledu i gwmni Agenda TV ar BBC Wales yn 1992-3, a oedd yn cynnwys fersiynau cynharach o rai o'r syniadau uchod, ond ar ffurf fwy gweledol a ddarluniwyd gan ymdrechion y cynhyrchydd a'r cyfarwyddydd Lowri Gwilym, a'i thîm.

O ran llyfryddiaeth cenedlaetholdeb, gellid dadlau ei bod yn rhy helaeth yn barod.

Cafodd fy ngwaith i fy hun ar y pwnc, sydd wedi'i ddefnyddio uchod, gymorth hael ar ffurf Cymrodoriaeth gan Ganolfan Moeseg, Athroniaeth a Materion Cyhoeddus prifysgol hynaf yr Alban, St Andrews. I ddiolch iddyn nhw, rwy'n gobeithio ei orffen ryw ddydd.